Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.04.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# DIGWYDDIAD: Diwrnod Busnes Gwynedd, 22 Mai 2023

Mae Diwrnod Busnes Gwynedd yn gyfle i fusnesau yng Ngwynedd ddod at ei gilydd i gwrdd, dysgu a rhannu a datblygu syniadau a strategaethau newydd. Bydd y digwyddiad hybrid hwn yn cael ei gynnal ar 22 Mai 2023 – wyneb yn wyneb ym Mhant Du, Penygroes, LL54 6HE, neu ar-lein drwy Zoom. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/DiwrnodBusnesGwynedd2023

# YMGYNGHORIAD: Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru)

Mae ymgynghoriad ar gynlluniau i foderneiddio gwasanaethau tacsis ledled Cymru wedi ei lansio gan Lywodraeth Cymru. Mae gyrwyr, y diwydiant ehangach a phawb sydd am weld sector tacsis a cherbydau hurio preifat ffyniannus, diogel a dibynadwy yng Nghymru yn cael eu hannog i ymateb. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.llyw.cymru/bil-tacsis-cherbydau-hurio-preifat-cymru-papur-gwyn

# RHEOLIADAU: Mewnforio anifeiliaid byw neu gynnyrch anifeiliaid

Gellir gweld canllawiau diweddaraf Llywodraeth y DU ar fewnforio anifeiliaid byw neu gynnyrch anifeiliaid ar:

https://bit.ly/41AL1A9

# TRAFNIDIAETH: Penwythnos Gŵyl y Banc

Gyda phenwythnos gŵyl y banc ar y gorwel, dyma rai dolenni i helpu gyda materion trafnidiaeth:

- Mae gwybodaeth am ragarchebu lle parcio ym Mhen y Pass ar gael ar: https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/parcio-ar-gyfer-yr-wyddfa/

- Mae gwefan Sherpa'r Wyddfa ar gael ar: https://www.sherparwyddfa.cymru/

- Mae manylion am wasanaeth Bws Ogwen ar gael ar: https://www.facebook.com/bwsogwen/
  Mae gwasanaeth y T10 Bangor-Corwen hefyd yn

gwasanaethu Dyffryn Ogwen, manylion ar: https://bit.ly/3ANGejj

- Mae manylion am wasanaeth bws Fflecsi Llŷn ar gael ar: https://www.fflecsi.cymru/locations/pen-llyn/

## IECHYD A DIOGELWCH: Rheoli camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn y gweithle

Mae deall arwyddion camddefnydd o gyffuriau ac alcohol (neu gam-drin) yn helpu i reoli'r risg i iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae gan wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) gyfarwyddyd cam wrth gam ar sut i reoli camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn y gwaith, gan gynnwys cyngor ar sut i ddatblygu polisi ar gyffuriau ac alcohol a sut y gellir cefnogi gweithwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.hse.gov.uk/alcoholdrugs/index.htm

## GWOBRAU: Gwobrau Busnes Prydain 2023

Mae'r enwebiadau ar agor ar gyfer Gwobrau Busnes Prydain 2023 sy'n cydnabod cyflawniadau eithriadol ac arloesol busnesau bach a chanolig ar draws yr holl ddiwydiannau. Y dyddiad cau i wneud cais yw 26 Mai 2023.. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://britishsmallbusinessawards.co.uk/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru